Cynnydd a wnaed wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol mewn ysgolion

Mawrth 2007

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2007: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Cefndir **2**

Prif ganfyddiadau **4**

Argymhellion **6**

Rhoi argymhellion adroddiadau blaenorol ar waith **7**

Cynnydd ym meysydd ffocws gwahanol y fenter **9**

Safonau mewn addysg gorfforol mewn ysgolion canolfannau datblygu 9
Pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 9
Datblygiad Proffesiynol Parhaus 10
Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon 11
Prosiectau arbenigol 11
Rheolaeth y fenter 12

Casgliad **14**

Atodiad 1: Cynllun Gweithredu Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol ar gyfer Cymru (cyhoeddwyd yn 2001)

Atodiad 2: Enghraifft o arfer dda

Geirfa

Cyflwyniad

1 Diben yr adroddiad hwn yw ymateb i'r cais gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yng nghylch gwaith blynyddol y Gweinidog ar gyfer Estyn yn 2006-2007, i arfarnu cynnydd wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (AGChY). Cyflwynwyd y fenter mewn ymateb i'r Cynllun Gweithredu o adroddiad y Tasglu AGChY (gweler Atodiad 1 am grynodeb).

2 Mae'r adroddiad yn crynhoi'r prif ganfyddiadau o gyfarfodydd a thrafodaethau gyda:

- chydlynwyr AGChY o 14 o awdurdodau lleol;
- rheolwyr lleol pum canolfan AGChY;
- darlithwyr arbenigol addysg gorfforol (AG) o bedwar sefydliad hyfforddiant cychwynnol i athrawon;
- ymgynghorwyr sy'n gyfrifol am addysg gorfforol mewn naw awdurdod addysg lleol (AALl);
- swyddogion o Gyngor Chwaraeon Cymru (CCC); ac
- ymgynghorwyr AGChY a benodwyd i gefnogi canolfannau datblygu a datblygu prosiectau arbenigol ar y fenter.

Cefndir

3 Mae gan y fenter AGChY nifer o ganghennau. Y rhain yw:

- gwella safonau mewn addysg gorfforol yn y cwricwlwm;
- gwneud yn siŵr bod addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn rhoi i hyfforddeion yr hyder, y wybodaeth, y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i addysgu addysg gorfforol;
- sefydlu rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus achrededig i bob athro;
- gwella ansawdd yr ystafelloedd a'r adnoddau ar gyfer addysg gorfforol ym mhob ysgol yng Nghymru; a
- chefnogi ysgolion yng Nghymru i ymestyn cyfleoedd ar gyfer chwaraeon ysgol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol drwy wella ansawdd ac ehangder y gweithgareddau ar ôl ysgol i bob person ifanc beth bynnag yw eu hoedran, eu gallu, eu hethnigrwydd, eu rhyw neu eu lleoliad daearyddol.

4 Mae'r ffocws ar wella cyfleusterau wedi canolbwyntio ar fentrau a gaiff eu hariannu gan y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith i wella safonau yn digwydd yn y canolfannau datblygu AGChY a thrwyddynt. Mae nifer o brosiectau arbenigol yn ategu ac yn ehangu'r gwaith hwn drwy gynhyrchu adnoddau addysgu a dysgu. Mae gwaith ar hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn cael ei arwain gan ymgynghorwyr arbenigol o'r sefydliadau hynny ac mae'r gangen datblygu proffesiynol yn cael ei harwain gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Mae'r holl ganghennau, fodd bynnag, yn cysylltu'n agos iawn.

5 Yn ystod pum mlynedd gyntaf y fenter AGChY, mae arolygwyr wedi ymweld â chanolfannau datblygu ac wedi arfarnu cynnydd ynddynt o leiaf ddwywaith ym mhob AALl yng Nghymru (teirgwaith mewn wyth AALl).

6 I gychwyn, ariannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru raglen beilot o 18 o 'ganolfannau datblygu' ar draws Cymru. Mae canolfannau datblygu yn bartneriaethau rhwng ysgol uwchradd a'i hysgolion cynradd bwydo. Gall partneriaid eraill gynnwys darparwyr addysg ôl-16 neu ganolfannau hamdden. Mae natur pob canolfan ddatblygu yn cael ei phennu gan anghenion, diddordebau ac arbenigeddau lleol a rhanbarthol. Dewisir partneriaid priodol gan yr awdurdod lleol er mwyn ategu eu cynlluniau presennol.

7 Diben allweddol y canolfannau datblygu yw nodi, cryfhau a datblygu arfer dda mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol. Mae rheolwyr AGChY CCC yn disgwyl i ganolfannau ddatblygu dulliau arloesol o gyflwyno'r cwricwlwm, o ddefnyddio cyfleusterau a datblygu staff. Dylai'r canolfannau gyfrannu at godi safonau ledled Cymru drwy rannu gwybodaeth gydag ysgolion nad ydynt yn aelodau o ganolfannau datblygu ar hyn o bryd.

8 Ers i brosiect AGChY gychwyn ym mis Ebrill 2003, mae CCC wedi rhoi cefnogaeth i bob awdurdod lleol yng Nghymru i sefydlu 63 o ganolfannau datblygu ledled Cymru.

Nid yw nifer o'r canolfannau hyn bellach yn cael cyllid, ond maent yn parhau i ymrwymo i gynnal gwaith da a pharhau i ddatblygu fel clwstwr o ysgolion. Mae rhai o'r 'partneriaethau cynaliadwy' hyn yn cael hyfforddiant a chefnogaeth am ddim gan bersonél allweddol o hyd. Mae rhai canolfannau wedi cael symiau bychain o arian i gwblhau elfennau o'u cynlluniau strategol neu i gynnal y cyfarfodydd partneriaeth. Mae canolfannau o'r fath yn cael eu galw'n bartneriaethau AGChY neu'n ganolfannau ffocws yn hytrach nag yn ganolfannau datblygu.

9 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i ariannu'r fenter ar lefel ostyngedig, ac maent wedi cynghori rheolwyr CCC y dylid cyflwyno'r fenter i bob ysgol yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd. Mae CCC yn cynllunio gydag awdurdodau lleol a chydlynwyr AGChY i gyflawni hyn erbyn 2009.

Prif ganfyddiadau

10 Mae'r fenter AGChY wedi gwneud cynnydd da iawn tuag at gyflawni holl argymhellion allweddol y cynllun gweithredu AGChY ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd yn 2001 (gweler Atodiad 1).

11 Mae'r ffocws ar gefnogi athrawon i ddatblygu eu sgiliau addysgu AG wedi bod yn arbennig o effeithiol mewn ysgolion cynradd. Mae'r fenter wedi bod yn fwy llwyddiannus a chynaliadwy na mentrau lle mae arbenigwyr yn ymweld ag ysgolion i gynnig profiadau unigol. Mae'r fenter AGChY wedi helpu athrawon addysg gorfforol a chydlynwyr pwnc cynradd i gymryd yr awenau wrth fynd i'r afael â materion ysgol gyfan fel cynllunio pontio disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd a datblygu medrau sylfaenol.

12 Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid cynradd ac uwchradd o'r farn bod y fenter AGChY yn fenter lwyddiannus iawn. Dywedant ei bod wedi:

- cynyddu'r cyfleoedd am weithgareddau corfforol sydd ar gael i ddisgyblion ac wedi codi safonau mewn addysg gorfforol;
- cyfrannu at gynllunio gweithgareddau ar draws y cwricwlwm yn well ac wedi gwella ansawdd yr addysgu addysg gorfforol yn sylweddol, yn arbennig mewn ysgolion cynradd;
- cael effaith amlwg ar wella ymddygiad ac agweddau disgyblion ac wedi helpu wrth ddatblygu eu medrau allweddol a'u medrau ehangach; ac
- wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu cysylltiadau cwricwlwm traws glwstwr a thraws cyfnod.

13 Lle mae'n llwyddiannus iawn, ym mwyafrif sylweddol y canolfannau yng Nghymru:

- mae ymgynghorydd addysg gorfforol arbenigol yn gweithio'n agos gyda'r cydlynydd AGChY a rheolwyr lleol i gynnig cefnogaeth ac arfarnu effaith ac effeithiolrwydd y fenter;
- mae penaethiaid yn cydnabod cyfraniad pwysig addysg gorfforol i ddatblygiad academaidd, cymdeithasol ac iachus disgyblion ac maent yn cefnogi'r fenter drwy ganiatáu i staff gael hyfforddiant;
- mae athrawon yn llwyr ymroddedig ac yn frwdfrydig; mae athrawon uwchradd yn gweithio mewn partneriaeth ag athrawon cynradd, ac maent yn dysgu oddi wrth ei gilydd; ac
- mae'r awdurdod lleol yn cefnogi'r fenter yn llawn, ac yn ei chynnwys yn ei Gynllun Addysg Sengl.

14 Lle mae'n llai llwyddiannus, mewn nifer fach o ysgolion:

- nid oes gan gydlynwyr AGChY, rheolwyr lleol ac ysgolion fynediad i gyngor a chefnogaeth arbenigol o ddydd i ddydd;
- nid yw penaethiaid a staff yn ymroddedig nac yn frwdfrydig am y fenter;
- mae athrawon uwchradd yn ystyried mai ychydig iawn sydd ganddynt i'w ddysgu o'r fenter neu oddi wrth eu partneriaid cynradd. Nid ydynt yn deall nac yn gwerthfawrogi bod y fenter yn gallu bod o fudd mawr iddynt;
- mae'r awdurdod lleol yn talu 'gwasanaeth gwefus' i gefnogi'r fenter ac nid yw'n ei chynnwys yn ei Gynllun Addysg Sengl;

15 Mae'n bwysig bod cysylltiadau da rhwng y fenter AGChY a Grŵp Cymwysterau a Chwricwlwm Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n rhaid i'r ddau gorff wneud yn siwr bod gwersi'r AGChY yn cael eu bwydo i'r adolygiad o'r cwricwlwm ysgol fel eu bod yn osgoi'r posibilrwydd o ddyblygu adnoddau a deunyddiau i'w defnyddio mewn ysgolion.

Argymhellion

Dylai ysgolion AGChY:

A1 wneud yn siwr eu bod yn cynnwys AGChY yn eu cynlluniau gwella ysgol;

A2 nodi sut gallant ddarparu adnoddau ar gyfer y fenter o'r ystod o gyllid amgen sydd ar gael; a

A3 chefnogi athrawon AG cyfnod cynradd anarbenigol ym mlynyddoedd cynnar eu gyrfaoedd i ddatblygu eu harbenigedd mewn addysgu addysg gorfforol.

Dylai awdurdodau lleol:

A4 reoli, cefnogi a sicrhau ansawdd gwaith eu cydlynydd AGChY; ac

A5 annog ysgolion i barhau i ariannu'r fenter.

Dylai Cyngor Chwaraeon Cymru:

A6 wneud yn siwr bod y fenter yn parhau i ganolbwyntio ar y cwricwlwm addysg gorfforol yn y rhaglen Pobl Ifanc Fywiog (gweler yr Eirfa am fwy o wybodaeth);

A7 sicrhau ansawdd gwaith y fenter drwy gynnal a chryfhau'r rhaglen fentora a thrwy fonitro gwaith yr ymgynghorwyr AGChY arbenigol; ac

A8 ad-drefnu baich gwaith y cydlynwyr AGChY mewn awdurdodau mwy.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A9 wneud yn siwr bod cysylltiadau da rhwng AGChY a'r Grŵp Ansawdd a Chwricwlwm fel bod arfer dda o AGChY yn llywio'r adolygiad o'r cwricwlwm ysgol a chynhyrchu adnoddau ac arweiniad ar gyfer ysgolion.

Rhoi argymhellion adroddiadau blaenorol ar waith

Ysgolion canolfannau datblygu

16 Ariannwyd y canolfannau datblygu cynharaf am gyfnod o dair blynedd. Nid yw llawer ohonynt, felly, yn cael arian bellach a gelwir y rhain yn ganolfannau ffocws neu bartneriaeth. Mae'r canolfannau mwyaf dychmygus ac ymroddedig ohonynt wedi archwilio a dod o hyd i ddulliau eraill o ariannu'r rhannau hynny o'r fenter y penderfynwyd eu bod fwyaf gwerthfawr. Mae llawr o'r canolfannau hyn wedi dod o hyd i ddulliau effeithiol o gynnal y gwaith.

17 Mae'r canolfannau a sefydlwyd yn fwy diweddar wedi elwa ar brofiadau'r canolfannau cynt. Mae rheolwyr lleol wedi rhannu eu profiadau ac mae canolfannau newydd wedi gwneud cynnydd cyflymach o ganlyniad.

Awdurdodau addysg lleol

18 Mae'r rhan fwyaf o AALlau yn cydnabod bod y fenter AGChY yn rhan bwysig o'u cynlluniau ar gyfer gwella ysgolion. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn rheoli'r fenter AGChY yn briodol drwy eu cyfarwyddiaeth addysg. Maent yn canolbwyntio'r fenter yn glir ar addysg gorfforol a chwaraeon ysgol fel rhan o'r cwricwlwm ysgol ac yn integreiddio rheolaeth y fenter mewn cynlluniau, rhaglenni a blaenoriaethau eraill.

19 Daw'r fenter AGChY o dan y rhaglen Pobl Ifanc Fywiog erbyn hyn. Canghennau eraill o Bobl Ifanc Bywiog yw Campau'r Ddraig a 5x60 (gweler yr Eirfa am fwy o wybodaeth). Mae Campau'r Ddraig a 5x60 yn brosiectau allgyrsiol, tra bod AGChY yn fenter gwricwlaidd yn amser yr ysgol. Mewn awdurdodau lleol lle nad yw addysg a hamdden yn yr un gyfarwyddiaeth, dylai'r tair menter bellach gael eu rheoli gan eu cyfarwyddiaethau addysg.

Cyngor Chwaraeon Cymru

20 Mae ariannu'r canolfannau datblygu'n parhau'n her, oherwydd y gwahaniaethau yn amseru'r cyllidebau a ddyrennir gan AALlau a'r Cyngor Chwaraeon. Mae cyllidebau AALlau ac ysgolion yn cael eu cynllunio fel rheol dros gylch tair blynedd, lle bo'r Cyngor Chwaraeon, hyd yn hyd, yn cytuno ar gyllid dangosol am flwyddyn, ac yn rhyddhau'r cyllid bob tymor. Fodd bynnag, dywed cydlynwyr AGChY fod CCC yn dod yn fwy hyblyg yn ei ddulliau.

21 Mae'r holl arbenigwyr a benodwyd i gefnogi'r canolfannau datblygu'n cael cefnogaeth bwysig gan y sefydliadau sy'n eu cyflogi drwy eu rhyddhau ar gyfer gwaith AGChY. Mae perygl y gall cyfyngiadau ariannol cynyddol ar y sefydliadau hyn beryglu gallu'r arbenigwyr hyn i barhau i gefnogi AGChY.

Llywodraeth Cynulliad Cymru

22 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i ariannu'r fenter AGChY. Bydd estyn y cyllid i 2008-2009 yn caniatáu i'r rheolwr AGChY gyflwyno'r fenter i bob ysgol yng

Nghymru. Dyma oedd gweledigaeth wreiddiol aelodau Tasglu'r AGChY ac mae wedi cael ei chyflawni mewn llai o amser nag y cafodd ei ragweld yn wreiddiol.

Cynnydd ym meysydd ffocws gwahanol y fenter

Safonau mewn addysg gorfforol mewn ysgolion canolfannau datblygu

23 Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau datblygu ysgolion cynradd yn dyrannu dwy awr argymelledig Llywodraeth Cynulliad Cymru i addysg gorfforol bob wythnos. Fodd bynnag, nid cwestiwn syml o ddyrannu mwy o amser i bwnc yw gwella safonau, mae'n rhaid iddo hefyd gynnwys gwella ansawdd y profiad. Mae'r fenter AGChY wedi llwyddo i wneud y ddwy awr yn werth chweil i ddisgyblion drwy gynnig mwy o gyfleoedd o ansawdd gwell, a thrwy wella ansawdd yr addysgu.

24 Lle mae safonau wedi gwella, mewn addysg gorfforol, mae disgyblion o bob oedran:

- yn cynllunio ac yn canolbwyntio'n dda ar berfformiad;
- deall, gwerthfawrogi ac yn disgrifio'r elfennau sy'n cyfrannu at waith da;
- yn arsylwi ar waith ei gilydd yn gywir ac yn gwneud awgrymiadau synhwyrol a sensitif am fwy o welliant;
- yn gwybod am fanteision corfforol, cymdeithasol a meddyliol gweithgareddau corfforol; ac
- yn gallu esbonio pwysigrwydd a manteision ymarfer i ffordd iach o fyw.

25 Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer addysg gorfforol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac mae wedi cyrraedd y cam ymgynghori.

26 Bydd y gorchmynion newydd yn cael eu cyflwyno yn 2008. Mae'n bwysig bod cysylltiadau da rhwng rheolwyr y fenter AGChY a Grŵp Cymwysterau a Chwricwlwm Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n rhaid iddynt gydweithio i wneud yn siwr bod gwersi o'r AGChY yn cael eu bwydo i'r adolygiad o'r cwricwlwm ysgol ac i unrhyw arweiniad arall ar gyfer athrawon fel eu bod yn osgoi'r posibilrwydd o ddyblygu neu wrth-ddweud yn yr adnoddau a gyhoeddir i'w defnyddio mewn ysgolion.

Pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3

27 Fel y nodwyd yn adroddiadau blaenorol AGChY Estyn (www.estyn.gsi.gov.uk/publications), bu'r gwaith ar bontio yn un o ganghennau mwyaf llwyddiannus y fenter AGChY ac mae wedi cael effaith sylweddol ar ansawdd addysgu a dysgu ar draws yr ysgolion partneriaeth.

28 Mae'r canolbwyntio ar waith partneriaeth rhwng athrawon cynradd ac uwchradd wedi arwain at:

- ymweliadau rheolaidd â'u hysgolion ei gilydd;

- cynllunio gweithgareddau ac unedau pontio yn rheolaidd; a

- safoni asesiadau athrawon ar y cyd yn rheolaidd.

29 Mae nifer o ysgolion wedi defnyddio cynlluniau pontio AGChY fel modelau arfer dda i'r holl adrannau pwnc eraill eu dilyn.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

30 Mae'r fenter AGChY yn parhau i drefnu a rhoi hyfforddiant i athrawon ledled Cymru mewn ystod o weithgareddau. Mae'r holl gyrsiau'n cael eu harwain gan arbenigwyr a gydnabyddir yn genedlaethol, ac mae ansawdd yr hyfforddiant yn cael ei gytuno gyda chynghorwyr ac ymgynghorwyr AGChY. Mae BAALPE (afPE bellach) wedi llywio'r safonau hyn[1].

31 Mae'r hyfforddiant yn aml yn agored i athrawon o ysgolion nad ydynt yn ysgolion canolfannau datblygu. Ers dechrau menter AGChY, mae 8,971 o athrawon o bob cwr o Gymru wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant a ddarparwyd drwy gyrsiau AGChY. O fewn y nifer hon, daeth 1,414 o athrawon o ysgolion nad ydynt mewn canolfan ddatblygu. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, bydd dros 10,000 o athrawon wedi mynychu un cwrs neu fwy, gyda thua 1,700 ohonynt yn dod o ysgolion nad ydynt mewn canolfan ddatblygu. Mae'r cyrsiau'n cynnwys:

- cyrsiau hyfforddiant mewn swydd ar weithgareddau penodol;

- seminarau a gweithdai; a

- chynadleddau.

32 Mae cyrsiau ar weithgareddau penodol yn cwmpasu'r ystod gyfan o weithgareddau ymarferol yng Ngorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer AG, ynghyd â chyrsiau i gefnogi athrawon i wella'u gwaith o gynllunio addysgu a dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- defnyddio TGCh mewn AG;

- AG i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig;

- asesu ac adrodd;

- pontio rhwng cyfnodau allweddol;

- arweinyddiaeth pwnc;

- datblygu cysylltiadau rhwng yr ysgol a'i chymuned;

[1] BAALPE – Cymdeithas Ymgynghorwyr a Darlithwyr Addysg Gorfforol Prydain. Yn haf 2006, ymunodd BAALPE â'r Gymdeithas Addysg Gorfforol i ffurfio afPE – y Gymdeithas dros Addysg Gorfforol.

- rheoli gweithgareddau'r lle chwarae; ac

- iechyd a diogelwch.

33 Mae mentoriaid a thiwtoriaid sy'n cyflwyno'r cyrsiau hyn hefyd yn cael hyfforddiant cenedlaethol rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod ansawdd a chynnwys y cyrsiau yn gyson ar gyfer athrawon, lle bynnag y cynhelir y cyrsiau yng Nghymru. Mae ystod ac ansawdd y cyrsiau'n cael effaith gadarnhaol ar wella addysgu a dysgu mewn addysg gorfforol. Drwy ganolbwyntio ar wella addysgu, dylai fod modd cynnal y gwelliannau y tu hwnt i oes y fenter AGChY.

Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon a Datblygiad Proffesiynol Cynnar

34 Roedd yr adroddiad diwethaf ar y fenter AGChY 'Golwg fanwl ar gynnydd a wnaed wrth weithredu Cynllun Gweithredu AGChY' 2006 (www.estyn.gsi.gov.uk/publications) yn amlygu'r mater nad oedd amser digonol ar gyfer hyfforddiant cychwynnol mewn addysg gorfforol i athrawon cynradd. Ers cyhoeddi adroddiad y llynedd, mae darlithwyr addysg gorfforol mewn tri sefydliad yng Nghymru'n adrodd bod eu dyraniad amser wedi gostwng ymhellach. Mewn un sefydliad, mae'r amser ar gyfer hyfforddeion cynradd anarbenigol a hyfforddiant uwchradd arbenigol wedi cael ei ostwng. Mewn un arall, mae amser ar gyfer hyfforddeion uwchradd arbenigol wedi cael ei ostwng, tra bod amser ar gyfer hyfforddeion cynradd anarbenigol wedi cael ei ostwng yn y trydydd.

35 Roedd adroddiad y llynedd yn argymell y dylai sefydliadau hyfforddiant athrawon:

> 'nodi sut byddant yn gwneud yn siwr bod hyfforddeion yn caffael yr hyder, y wybodaeth, y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i addysgu addysg gorfforol o fewn cyfyngiadau amser a chyfleusterau eu cyrsiau'.

36 Yn ddiweddar, ysgrifennodd Llywodraeth Cynulliad Cymru at bob sefydliad addysg uwch yn gofyn sut yr oeddent yn bwriadu mynd i'r afael â'r argymhelliad. Mewn ymateb uniongyrchol i'r llythyr hwnnw, mae un sefydliad yng ngogledd-ddwyrain Cymru wedi cynyddu'r amser a ddyrennir ar gyfer hyfforddi athrawon cynradd mewn addysg gorfforol.

37 Mae angen i athrawon dibrofiad nodi addysg gorfforol fel un o'u blaenoriaethau ar gyfer datblygu yn ystod cyfnod cynnar eu gyrfaoedd. Mae'r fenter AGChY ar hyn o bryd yn llenwi llawer o'r bylchau ym medrau athrawon wrth addysgu AG drwy gynnig cyfleoedd hyfforddi o ansawdd uchel i athrawon dibrofiad ynghyd ag i athrawon profiadol.

Prosiectau arbenigol

38 Mae gwaith yn parhau ar y prosiectau arbenigol. Mae'r prosiectau gymnasteg, ymarfer sy'n gysylltiedig ag iechyd, TGCh a dawns yn datblygu adnoddau addysgu a dysgu, ac mae'r prosiect cynhwysiad yn cynnal ymchwil gweithredol i ddatblygu profiadau corfforol priodol ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig. Mae'r prosiectau mwyaf diweddar (dawns a chynhwysiad) yn gwneud cynnydd da ar ôl dechrau araf. Mae datblygiad adnoddau o ansawdd uchel, cyfeillgar i'r defnyddiwr,

sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i welliannau mewn addysg gorfforol, wedi deillio o'r prosiectau mwy hir sefydledig.

39 Mae rheolwyr AGChY ac ymgynghorwyr arbenigol wedi datblygu fframwaith ac arweiniad i ysgolion ar sut i gynnal hunanarfarniad o addysg a dysgu mewn addysg gorfforol. Mae ysgolion sy'n ymuno â'r fenter yn defnyddio'r fframwaith, gyda chefnogaeth hyfforddiant, i sefydlu'r waelodlin iddynt wella ohoni. Mae'r fframwaith wedi'i seilio ar saith cwestiwn allweddol Estyn yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Mae ysgolion wedi croesawu'r arweiniad a'r gefnogaeth, ac mae canolfannau newydd yn ystyried bod y fframwaith yn arf gwerthfawr pan fyddant yn ymuno â'r fenter. Mae un AALl yn ystyried bod ansawdd y fframwaith a'r arweiniad mor uchel fel ei fod wedi ei argymell i ysgolion fel model posibl i bob pwnc ei ddilyn.

Rheolaeth y fenter

40 Mae rheolaeth y fenter drwy Gyngor Chwaraeon Cymru yn fwyfwy effeithlon ac effeithiol. Mae cyfathrebu a chysylltiadau ag uwch swyddogion mewn awdurdodau lleol ledled Cymru yn gadarnhaol. Mae'r uwch reolwr wedi dyrannu cyfrifoldebau priodol i eraill ac mae'r holl reolwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Fodd bynnag, er bod cydlynwyr AGChY yn uchel eu parch at reolwyr, mae nifer sylweddol yn ansicr ynghylch cyfrifoldeb pob rheolwr, a phwy ddylent gysylltu â nhw ynglŷn â materion penodol. Mae ymgynghorwyr yn cadarnhau'r farn hon.

41 Mae'r rhan fwyaf o'r cydlynwyr AGChY yn rheoli'r nifer gynyddol o ganolfannau datblygu'n dda ac yn delio â materion gweinyddol yn effeithlon. Mae llawer o gydlynwyr yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr mewn awdurdodau cyfagos ac ar draws eu rhanbarth. Fel rhan o Pobl Ifanc Fywiog, mae llawer o gydlynwyr yn gweithio'n agos yn eu hawdurdod lleol â swyddogion sy'n gyfrifol am Gampau'r Ddraig a 5x60, ac mae rhai cydlynwyr AGChY yn arwain y rhaglen Pobl Ifanc Fywiog. Bydd cynlluniau i gyflwyno'r fenter ym mhob ysgol yng Nghymru erbyn 2009 yn rhoi pwysau ar gydlynwyr AGChY mewn awdurdodau sydd â nifer fawr o ysgolion. Bydd angen i CCC ad-drefnu baich gwaith y cydlynwyr hyn fel bod modd parhau i ymdopi â'u cyfrifoldebau.

42 Mae'r fenter ar ei mwyaf llwyddiannus pan fyddl ymgynghorydd addysgu gorfforol arbenigol sy'n cael ei gyflogi mewn awdurdod lleol yn gweithio'n agos â'r cydlynydd AGChY a rheolwyr lleol. Mae'r ymgynghorydd yn gallu monitro ac arfarnu effaith ac effeithiolrwydd y fenter mewn ysgolion a'r rhan y mae'n ei chwarae wrth wella ysgolion yn gyffredinol. Y trefniant hwn sy'n rhoi'r gefnogaeth orau i athrawon mewn ysgolion canolfannau datblygu.

43 Fodd bynnag, mae saith awdurdod lleol o hyd heb enwi ymgynghorydd addysg gorfforol arbenigol. Yn dilyn cyngor gan Banel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored Cymru ynglŷn â diogelwch mewn gweithgareddau awyr agored, mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg, Cymru, (CCAC – gweler yr Eirfa am fwy o wybodaeth) wedi cytuno y dylai pob AALl allu cyrchu cyngor gan dîm o ymgynghorwyr addysg awyr agored ('Darpariaeth yr AALl o gyngor arbenigol i ysgolion ar agweddau ar iechyd a diogelwch mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol' Mawrth 2007 (www.estyn.gsi.gov.uk/publications).

44 Mae awdurdodau nad oes ganddynt eu hymgynghorydd addysg awyr agored arbenigol eu hunain wedi cytuno i recriwtio 'pwynt cyswllt' ar gyfer ysgolion mewn cydweithrediad ag AALlau cyfagos. Dylai AALlau sydd heb ymgynghorydd addysg gorfforol ystyried trefniadau partneriaeth tebyg i wneud yn siwr eu bod yn cynnig cyngor a chefnogaeth arbenigol ar gyfer addysg gorfforol a chwaraeon ysgol.

Casgliad

45 Mae addysg gorfforol a chwaraeon ysgol yn cynnig dull gwerthfawr o ddatblygu a gwella medrau cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac addysgol disgyblion. Mae'r fenter AGChY wedi helpu addysg gorfforol i chwarae rôl bwysicach fyth yn yr agweddau hyn ar ddatblygiad personol disgyblion. Mae wedi rhoi llwyfan da i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ac i arsylwi a gwerthfawrogi perfformiad pobl eraill.

46 Mae menter AGChY yn fenter addysg llwyddiannus iawn a gafodd ei chyflwyno gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r fenter wedi cael effaith sylweddol ar wella cyfleoedd, profiadau a safonau mewn addysg gorfforol ar draws y wlad. Os yw'r fenter yn mynd i gynnal ei hysgogiad, dylai barhau i gymell pobl ifanc i anelu at ragoriaeth ac arwain bywydau iachus a gweithgar.

47 Mae'r gefnogaeth i athrawon i ddatblygu eu medrau addysgu AG wedi bod yn arbennig o effeithiol mewn ysgolion cynradd. Mae'r fenter wedi bod yn fwy llwyddiannus a chynaliadwy na mentrau eraill sydd wedi canolbwyntio ar ymgynghorwyr yn ymweld ag ysgolion i gynnig profiadau unigol. Mae nifer fawr o adnoddau dysgu sy'n cwmpasu holl weithgareddau addysg gorfforol y cwricwlwm cenedlaethol ar gael ar wefan AGChY. Mae'r fenter wedi helpu athrawon addysg gorfforol a chydlynwyr pwnc cynradd i gymryd yr awenau wrth fynd i'r afael â materion ysgol gyfan fel cynllunio ar gyfer pontio disgyblion o ysgol gynradd i ysgol uwchradd a datblygiad mentrau allweddol.

48 Mae'r fenter yn cael ei rheoli'n dda yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r fenter yn cefnogi ac yn ategu rhaglenni cenedlaethol eraill fel y'u nodir yn 'Lles yng Nghymru', y 'Strategaeth Bwyd a Ffitrwydd' a 'Dringo'n Uwch'.

Atodiad 1

Cynllun Gweithredu AGChY ar gyfer Cymru (cyhoeddwyd yn 2001)

Crynodeb o'r prif argymhellion

(1) Codi safonau mewn addysg gorfforol trwy wneud yn siŵr bod pob ysgol:

- yn rheoli'r pwnc yn effeithiol o fewn cwricwlwm yr ysgol gyfan;
- yn gosod targedau heriol ar gyfer codi safonau mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol;
- yn darparu digon o amser yn y cwricwlwm i addysgu gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer addysg gorfforol ym mhob cyfnod allweddol;
- yn datblygu medrau corfforol pobl ifanc o un flwyddyn i'r llall; ac
- yn gwella'u dealltwriaeth o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd.

(2) Gwneud yn siwr bod Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yn rhoi i hyfforddeion yr hyder, y wybodaeth, y medrau a'r ddealltwriaeth i addysgu addysg gorfforol.

(3) Codi safonau mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol drwy sefydlu rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) achrededig ar gyfer pob athro.

(4) Gwella ansawdd yr ystafelloedd a'r adnoddau ar gyfer addysg gorfforol ym mhob ysgol yng Nghymru.

(5) Cefnogi ysgolion yng Nghymru i ymestyn cyfleoedd ar gyfer chwaraeon ysgol y tu hwnt i ddiwrnod yr ysgol drwy wella ansawdd ac ehangder gweithgareddau ar ôl ysgol ar gyfer pob person ifanc beth bynnag yw eu hoedran, eu gallu, eu hethnigrwydd, eu rhyw neu eu lleoliad daearyddol.

(6) Sefydlu Canolfannau Datblygu Cwricwlwm (CDCau) a gwneud yn siwr eu bod yn cydweithio er mwyn nodi a datblygu arfer dda mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol.

Atodiad 2

Enghraifft o arfer dda

Pan ddaeth y cyllid ar gyfer partneriaeth canolfan ddatblygu AGChY Olchfa i ben yn 2005, penderfynodd yr ysgolion yn y bartneriaeth y byddent yn gwneud cais am arian gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC - gweler yr Eirfa am fwy o wybodaeth). Fe wnaethant y cyflwyniad o dan y categori Arian Rhwydwaith Proffesiynol.

Cytunodd y partneriaid y byddent yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau allweddol mewn addysg gorfforol, gyda phob athro'n ymchwilio i thema a oedd yn berthnasol i'w hanghenion a'u diddordebau. Roedd y themâu'n cynnwys:

(1) Y Cwricwlwm Cymreig;

(2) TGCh;

(3) gwella dysgu a pherfformiad disgyblion eu hunain; a

(4) gweithio gydag eraill/datrys problemau.

Cefnogodd ymgynghorydd TGCh yr awdurdod lleol y gwaith mewn TGCh. Mae'r canolbwyntio ar ddysgu a pherfformiad disgyblion eu hunain yn cael ei arwain gan yr ysgol arbennig yn y bartneriaeth, a daw hyn i ben llanw pan fydd y disgyblion yn cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd. Mae'r ffocws ar weithio gydag eraill yn canolbwyntio ar ddatblygu a gwella medrau pêl a chaiff hyn ei gefnogi gan arbenigwr addysg gorfforol o Olchfa. Mae'r holl waith wedi'i seilio'n gadarn ar sicrhau canlyniadau mesuradwy i athrawon a disgyblion.

Mae'r bartneriaeth wedi sicrhau cyllid o £2,275 ar gyfer blwyddyn ariannol 2006-2007 gan CyngACC. Mae'r bartneriaeth yn bwriadu defnyddio'r swm hwn i dalu am gostau cyflenwi aelodau'r rhwydwaith. Bydd hyn yn caniatáu iddynt ddod ynghyd mewn tri chyfarfod a rhannu unrhyw dystiolaeth a gasglwyd o'u prosiectau unigol.

Mae'r cydlynydd AGChY yn gweithredu fel cydlynydd y rhwydwaith.

Dyma enghraifft o arfer dda oherwydd:

- ei bod yn ddull dychymygus o gynnal cyllid o ffynhonnell heblaw am AGChY;
- ei bod yn ehangu effaith AGChY drwy ganolbwyntio ar yr ysgol gyfan a ffocws y grŵp clwstwr ar fedrau allweddol; ac
- mae'n parhau â'r ffocws ar bartneriaeth rhwng ysgolion mewn gwahanol gyfnodau.

Geirfa

CCAC – cymdeithas cyfarwyddwyr addysg Cymru. Cynrychiolir pob awdurdod lleol ar y corff hwn, sy'n cyfarfod i drafod materion a chytuno ar ymatebion a strategaethau.

AYP – Cynnwys Campau'r Ddraig, y fenter AGChY a'r fenter 5x60 o dan 'Pobl Ifanc Fywiog'.

5x60 – rhaglen newydd sy'n cael ei rheoli gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Ei nod yw annog disgyblion uwchradd yng Nghymru i fod yn fwy bywiog. Dros y tair blynedd nesaf, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn buddsoddi £7.6 miliwn yn y cynllun. Cynhaliwyd peilot o'r prosiect 5x60 mewn wyth ysgol yn 2006.

CyngACC – Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yw'r corff proffesiynol hunanreoleiddiol statudol ar gyfer y proffesiwn addysgu yng Nghymru. Ei nod yw cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu a chynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon.